**Dyddiad cyhoeddi** Mawrth 2008

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

*National Institute for Health and Clinical Excellence*

# Monitro nerfau yn ystod llawdriniaeth y thyroid

*Mae 'arweiniad Techlechyd' NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio monitro nerfau yn y GIG i drin pobl sy'n cael llawdriniaeth y thyroid. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgôp i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio llawdriniaeth y thyroid na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi'r wybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau o wybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 5.

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Efallai y bydd rhai llawfeddygon yn gweld bod y driniaeth yn ddefnyddiol wrth gyflawni llawdriniaethau cymhleth ar chwarren y thyroid. Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd i bobl sy'n cael llawdriniaeth y thyroid, cyn belled â bod llawfeddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

## Monitro nerfau

*Efallai nad hon fydd yr unig driniaeth bosibl ar gyfer atal niwed i nerfau yn ystod llawdriniaeth y thyroid.*
*Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'monitro nerfau mewndriniaethol yn ystod llawdriniaeth thyroid'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma – siaradwch â'ch llawfeddyg i gael disgrifiad llawn.

Mae chwarren y thyroid wedi'i lleoli'n agos at y ddau brif nerf sy'n gweithio llinynnau'r llais. Gelwir y nerfau yn nerfau laryngaidd. Os niweidir un o'r nerfau hyn, er enghraifft yn ystod llawdriniaeth ar chwarren y thyroid, gall y claf ddioddef crygni dros dro neu'n barhaol. Os niweidir y ddau nerf, gall y claf golli'r gallu i siarad a gallai ddatblygu anawsterau wrth anadlu.

Yn ystod llawdriniaeth gonfensiynol y thyroid o dan anesthetig cyffredinol, amlygir chwarren y thyroid a nodir y nerfau wrth eu gweld yn unig, ond nid yw hyn yn syml bob amser. Mae monitro nerfau yn cynnwys gosod electrodau ger llinynnau'r llais. Pan ddaw offeryn llawfeddygol yn agos at y naill neu'r llall o'r nerfau laryngaidd, dylai'r llawfeddyg gael ei rybuddio gan sŵn neu graffeg ar sgrîn sydd wedi'i chysylltu â'r electrodau gyda gwifrau.

Gallai'r llawfeddyg ddefnyddio stiliwr llaw ar unrhyw adeg yn ystod y llawdriniaeth i wirio lleoliad y nerfau laryngaidd.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod monitro nerfau yn ddewis addas i chi yn ystod llawdriniaeth y thyroid, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau cyn gofyn i chi gytuno i'r driniaeth.

### Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Beth pe bai rhywbeth yn mynd o'i le?

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE.  Edrychodd NICE ar wyth astudiaeth o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Roedd pedair astudiaeth yn cynnwys cyfanswm o 17,907 o gleifion (32,231 o nerfau), ac edrychwyd ar niwed parhaol i'r nerfau laryngaidd. Digwyddodd hyn mewn tua 2% o gleifion a gafodd fonitro eu nerfau yn ystod llawdriniaeth a thua 1% o gleifion a gafodd lawdriniaeth gonfensiynol. Nid oedd y gwahaniaeth rhwng y ddau ddull yn

arwyddocaol. Dangosodd tair astudiaeth yn cynnwys cyfanswm o 787 o gleifion i linynnau'r llais gael eu niweidio'n barhaol mewn hyd at 3% o gleifion lle y defnyddiwyd monitro nerfau.

Edrychodd pedair astudiaeth yn cynnwys cyfanswm o 1624 o gleifion (2469 o nerfau) ar niwed dros dro i'r nerfau laryngaidd. Digwyddodd niwed dros dro mewn tua 3–5% o gleifion a gafodd fonitro eu nerfau yn ystod llawdriniaeth a thua 3–4% o gleifion a gafodd lawdriniaeth gonfensiynol. Unwaith eto, nid oedd y gwahaniaethau'n arwyddocaol.

Mewn un astudiaeth o 639 o gleifion (1000 o nerfau), methodd y driniaeth monitro nerfau â chanfod niwed i nerfau mewn 10 allan o 21 o achosion lle y digwyddodd niwed yn ystod y llawdriniaeth. Yn yr un astudiaeth, cafwyd monitro nerfau gwallus lle nodwyd bod niwed i nerfau mewn 27 allan o 480 o gleifion yr oedd llinynnu'r llais yn gweithio'n normal ynddynt ar ôl y llawdriniaeth.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod barn wahanol ynglŷn â pha mor ddefnyddiol yw'r driniaeth. Dywedodd y cynghorwyr bod y driniaeth yn ddefnyddiol at ddibenion hyfforddi.

## Risgiau a phroblemau posibl

Ni nododd unrhyw un o'r astudiaethau unrhyw gymhlethdodau o ganlyniad i'r driniaeth monitro nerfau.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai darlleniadau ffug o'r ddyfais fonitro nerfau oedd y prif broblem o ran diogelwch gyda'r driniaeth hon.

## Rhagor o wybodaeth am lawdriniaeth y thyroid

Efallai y gall eich Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion (PALS) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

### NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'Monitro nerfau mewndriniaethol yn ystod llawdriniaeth thyroid'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael hefyd ar www.nice.org.uk/guidance/HTG164*

*Gallwch archebu copïau wedi'u hargraffu o'r daflen hon o gyhoeddiadau NICE (ffoniwch 0845 003 7783 neu anfonwch neges e-bost i publications@nice.org.uk a dyfynnwch y cyfeirnod N1547).*

*Rydym yn annog sefydliadau'r sector gwirfoddol a sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**
MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-7819-9 N1547 1P Mawrth 08

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2008. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of the Institute.